Cyfarwyddyd ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol: 2

# Swyddogaeth, dyletswyddau a phwrpas Fforymau Mynediad Lleol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol y llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r wlad a dyfroedd ei glannau. Gyda English Nature a Scottish Natural Heritage, mae CCGC yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer Prydain Fawr ac, yn rhyngwladol, drwy'r cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.

CCC 202 2002 1.5k

Argraffwyd gan: Imprint

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol: 2

# Swyddogaeth, dyletswyddau a phwrpas Fforymau Mynediad Lleol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ....... 5

**2. Swyddogaeth statudol Fforymau Mynediad Lleol** ....... 5

**3. Meysydd gwaith statudol** ....... 6

3.1 Is-ddeddfau sy'n ymwneud â thir mynediad ....... 6
3.2 Defnyddio wardeniaid ar dir mynediad ....... 6
3.3 Gwaharddiadau a chyfyngiadau tymor hir parthed mynediad i dir mynediad ....... 6
3.4 Cynlluniau ar gyfer Gwella Llwybrau Cyhoeddus ....... 7
3.5 Mapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig ....... 7

**4. Meysydd gwaith eraill** ....... 8

4.1 Rheoliadau Deddf CGHT (CROW) ....... 8
4.2 Rheoli'r hawl mynediad newydd ....... 8
4.3 Blaenoriaethau strategol ar gyfer rhwydweithiau llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio 8
4.4 Mathau eraill o hamddena awyr agored ....... 9

**5. Cynnwys FfMLl yn y broses ddemocratig** ....... 9

5.1 Cyrff sy'n ystyried cyngor FfMLl yn ôl statud ....... 9
5.2 Gosod agenda FfMLl ....... 9
5.3 Cyrff sy'n cael eu cynghori yn troi at FfMLl ....... 10
5.4 Gwaith a gynhyrchir gan y FfMLl ei hun ....... 10
5.5 Anfon cyngor yn ei flaen at gyrff perthnasol ....... 10
5.6 Swyddogaeth arsyllwyr ....... 10
5.7 Cynrychiolaeth FfMLl mewn grwpiau/gweithdai eraill ....... 11
5.8 Ymwneud â'r cyhoedd ....... 11

**6. Rhagor o wybodaeth** ....... 12

**ATODIAD – Cefndir Fforymau Mynediad Lleol** ....... 13

1.1 Beth yw Fforymau Mynediad Lleol? ....... 13
1.2 Pwy sy'n eu sefydlu? ....... 13
1.3 Pa ardal y byddant yn ymdrin â hi? ....... 13
1.4 Sawl un fydd i'w gael? ....... 13
1.5 Pwy y byddant yn ei gynghori? ....... 13
1.6 Pwy sy'n penodi aelodau? ....... 14
1.7 Ynghylch beth y byddant yn cynnig cyngor? ....... 14
1.8 A fydd FfMLl yn ymdrin â Chymru gyfan? ....... 14
1.9 Pa gynnydd sydd i'w weld hyd yn hyn? ....... 14
1.10 Pryd y caiff FfMLl eu sefydlu? ....... 14

# Swyddogaeth, dyletswyddau a phwrpas Fforymau Mynediad Lleol

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cyfarwyddyd yma'n amlinellu swyddogaeth, dyletswyddau a phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (FfMLl). Fe gynnwys gyfarwyddyd ynghylch meysydd gwaith y bydd FfMLl, yn ôl pob tebyg, yn ymwneud â hwy, gan gynnwys y gwaith lle mae gan y fforymau rôl statudol. Yn ogystal, fe gynnwys gyfarwyddyd ynghylch y ffordd orau o sicrhau bod FfMLl yn cael eu cynnwys yn llwyr yn y broses ddemocratig. Bwriedir iddo fod yn ddefnyddiol i bawb sy'n ymwneud â Fforymau Mynediad Lleol, gan gynnwys awdurdodau penodi, aelodau ac arsyllwyr.

Yn yr atodiad fe geir gwybodaeth gefndirol er mwyn galluogi'r cyfarwyddyd hwn i sefyll ar ei draed ei hun, fel petai. Fodd bynnag, os oes rhywun eisiau mwy o wybodaeth ynghylch sefydlu FfMLl, yna fe ddylid cyfeirio at *Canllawiau Fforymau Mynediad Lleol: 1 – Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol*.

Cymeradwywyd y cyfarwyddyd hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 2. Swyddogaeth statudol Fforymau Mynediad Lleol

Un o swyddogaethau statudol Fforymau Mynediad Lleol, o ran yr ardal y cafodd y fforwm ei sefydlu o'i herwydd, yw cynghori ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir o fewn yr ardal honno at ddiben hamddena awyr agored ac at ddiben mwynhau'r ardal.
(Deddf CGHT S94(4))

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, fe ddylai'r Fforymau ystyried:

- yr anghenion o ran rheoli tir;
- pa mor ddymunol fyddai gwarchod harddwch naturiol yr ardal y cafodd y fforwm ei sefydlu o'i herwydd, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffigol;
- y cyfarwyddyd a roddir o dro i dro gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 3. Meysydd gwaith statudol

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000 a'r rheoliadau diweddarach a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gosod dyletswydd statudol ar ysgwyddau awdurdodau lleol, awdurdodau'r Parc Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Comisiwn Coedwigaeth i gyfeirio rhai materion at FfMLl. Efallai y bydd rheoliadau sydd i ddod yn rhoi dyletswyddau statudol ychwanegol ar eu hysgwyddau. Fodd bynnag, adeg argraffu'r llyfryn hwn, mae Fforymau Mynediad Lleol yn ymgynghorwyr statudol ar y materion canlynol.

## 3.1 Is-ddeddfau sy'n ymwneud â thir mynediad

(Gweler CGHT S17; cyfeiriad FfMLl yn S17(3)(b))

Mae Deddf CGHT yn rhoi'r pŵer i awdurdodau mynediad, o ran tir mynediad yn eu hardal, lunio is-ddeddfau at ddiben:

- cadw trefn;
- atal y tir, neu unrhyw beth arno, rhag cael niwed; a
- sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r hawl mynediad newydd yn gwneud hynny heb ymyrryd â mwynhad eraill.

**Fodd bynnag, cyn y gellir llunio is-ddeddfau fel hyn, rhaid i'r awdurdod mynediad ymgynghori ag unrhyw Fforwm Mynediad Lleol a sefydlwyd yn yr ardal.**

## 3.2 Defnyddio wardeniaid ar dir mynediad

(Gweler CGHT S18; cyfeiriad FfMLl yn S18(2))

Mae Deddf CGHT yn rhoi'r pŵer i awdurdodau mynediad benodi wardeniaid ar gyfer tir mynediad yn eu hardal. Fe ellir eu penodi at y dibenion canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth ag is-ddeddfau
- mynnu cydymffurfiaeth â gwaharddiadau a chyfyngiadau;
- cynghori a chynorthwyo'r cyhoedd parthed yr hawl mynediad newydd;
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â thir mynediad, dyletswyddau a gaiff eu pennu gan yr awdurdod mynediad.

**Yn ôl y Ddeddf, cyn penodi wardeniaid o'r fath, ac ar ôl gwneud hynny bob hyn a hyn, rhaid i awdurdod mynediad ymgynghori ag unrhyw FfMLl a sefydlwyd ar gyfer yr ardal.**

## 3.3 Gwaharddiadau a chyfyngiadau tymor hir parthed mynediad i dir mynediad

(Gweler CGHT S21-33; cyfeiriad FfMLl yn S27(1))

Fe all perchnogion a rhai unigolion eraill a chanddynt ddiddordeb mewn tir a ddynodwyd fel tir mynediad wahardd neu gyfyngu ar fynediad i unrhyw ddarn o dir am hyd at 28 diwrnod, heb gynnig rheswm, yn amodol ar rai cyfyngiadau o ran y dyddiadau y gallant arfer yr hawl yma. Fodd bynnag, ni ellir gwahardd na chyfyngu fel arall ond trwy arweiniad yr awdurdod perthnasol. Fel arfer, CCGC fydd yr awdurdod perthnasol; ond wrth ymdrin â thir o fewn Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod y Parc Cenedlaethol fydd yr awdurdod perthnasol. Y Comisiwn Coedwigaeth yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer rhannau o dir sydd wedi eu neilltuo fel tir mynediad gan y

perchennog ac sydd un ai yn gyfangwbl neu'n bennaf yn goetir.

Fe all yr awdurdod perthnasol, trwy arweiniad, wahardd neu gyfyngu ar fynediad i dir mynediad yn ystod cyfnod penodol at ddiben:

- rheoli tir;
- osgoi'r perygl o gael tân neu osgoi perygl a allai ddod i ran y cyhoedd;
- gwarchod natur a threftadaeth.

**Fodd bynnag, cyn rhoi arweiniad o'r fath i wahardd neu gyfyngu ar fynediad am gyfnod amhenodol neu am gyfnod o amser sy'n fwy (neu a allai fod yn fwy) na chwe mis, rhaid i'r awdurdod perthnasol ymgynghori ag unrhyw FfMLl sy'n ymdrin â'r ardal dan sylw.**

## 3.4 Cynlluniau ar gyfer gwella llwybrau cyhoeddus

(Gweler CGHT S60-62; cyfeiriad FfMLl yn S61(1)(e))

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod priffyrdd lleol lunio Cynlluniau Gwella Llwybrau Cyhoeddus (CGLlC) o fewn pum mlynedd i'r amser y daw'r adrannau perthnasol o Ddeddf CGHT i rym, ac i adolygu'r cynlluniau o leiaf bob deng mlynedd. Yn ôl pob tebyg, fe ddaw'r adrannau i rym yn hwyr yn 2002.

Rhaid i CGLlC gynnwys:

(a) asesiad yr awdurdod o'r canlynol:

- i ba raddau y mae llwybrau cyhoeddus lleol yn cyrraedd gofynion presennol y cyhoedd ac i ba raddau y byddant yn cyrraedd gofynion y cyhoedd yn y dyfodol;
- y cyfleoedd a ddaw yn sgîl llwybrau cyhoeddus lleol (gan gynnwys llwybrau beicio) ar gyfer ymarfer corff a ffurfiau eraill o hamddena awyr agored a ffyrdd o fwynhau ardal yr awdurdod;
- pa mor hygyrch yw llwybrau cyhoeddus lleol i bobl ddall, neu bobl sy'n rhannol ddall, ac eraill a chanddynt broblemau wrth symud;
- unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â llwybrau cyhoeddus lleol yn ôl arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) datganiad ynghylch yr hyn y maent yn bwriadu ei wneud parthed rheoli llwybrau cyhoeddus lleol, a pharthed sicrhau gwell rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus lleol, gan roi sylw penodol i'r hyn yr ymdriniwyd ag ef yn yr asesiad.

(c) unrhyw ddeunyddiau eraill yn ôl arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol.

**Mae CGHT S61(1)(e) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau priffyrdd ymgynghori â FfMLl cyn llunio neu adolygu CGLlC.**

## 3.5 Mapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig

(Gweler Rheoliadau 2001 N0.4001 (W.329); cyfeiriad FfMLl yn Atodlen 1)

Mae Deddf CGHT yn nodi bod yn rhaid i CCGC lunio mapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig fel y cam cyntaf yn y broses, a fydd yn y pen draw yn arwain at gyflwyno hawliau mynediad newydd, yn 2005 yn ôl pob tebyg. Rhannwyd Cymru yn bymtheg ardal ac fe fydd map drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer pob ardal rhwng Chwefror 2002 a Hydref 2003. Tri mis yw'r cyfnod ymgynghori ar gyfer pob map drafft.

**Mae Atodlen 1 o'r rheoliadau yn rhestru'r sefydliadau hynny sy'n ymgynghorwyr statudol. Fe gynhwysir Fforymau Mynediad Lleol yn y rhestr hon.**

# 4 Meysydd gwaith eraill

O fewn y maes gwaith eang a osodwyd gan Ddeddf CGHT o ran ‘gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno ar gyfer hamddena awyr agored a mwynhad’, fe ddylai FfMLl, wrth ymgynghori gyda’r ysgrifennydd, osod ei agenda ei hun. Gan hynny, nid oes modd bod yn fwy cynhwysfawr yn yr adran hon, ond isod fe gynigir enghreifftiau o’r meysydd y rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o FfMLl yn ymwneud â hwy.

## 4.1 Rheoliadau Deddf CGHT

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi llunio dros 20 o setiau o reoliadau i gyd-fynd â Deddf CGHT. Ni all llawer o adrannau o Ddeddf CGHT ddod i rym hyd nes y bydd y rheoliadau perthnasol hefyd mewn grym. Fe fydd dogfennau ymgynghori yn cael eu llunio ar yr holl reoliadau, rhai ar y cyd â DEFRA.

Bydd ymatebion i’r sylwadau hyn gan unrhyw sefydliad neu unigolyn yn cael eu croesawu. Fodd bynnag, mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus iawn i wybod beth yw cydfarn Fforymau Mynediad Lleol, ac fe fyddant yn anfon copïau o reoliadau drafft a/neu ddogfennau ymgynghori at ysgrifenyddion FfMLl cyn gynted ag y byddant ar gael.

## 4.2 Rheoli’r hawl mynediad newydd

Er na fydd yr hawl newydd yn dod i rym cyn 2005 yn ôl pob tebyg, fe fydd yn rhaid i’r holl gyrff sy’n gysylltiedig â hyn oll ystyried sut i reoli’r hawl newydd ymhell cyn hynny. Fe fydd gan Fforymau Mynediad Lleol swyddogaeth allweddol o ran cynghori’r cyrff a fydd yn rheoli’r mynediad – awdurdodau lleol, awdurdodau’r Parc Cenedlaethol a CCGC yn bennaf. Dyma rai enghreifftiau o feysydd gwaith y bydd gan FfMLl ddiddordeb ynddyn nhw:

- mannau mynediad;
- defnyddio wardeniaid;
- gwybodaeth a chyhoeddusrwydd;
- arwyddion a mannau gwybodaeth;
- isadeiledd – camfeydd, giatiau ayyb;
- creu llwybrau sy’n arwain at dir mynediad;
- trefnu sut i reoli gwaharddiadau a chyfyngiadau.

## 4.3 Blaenoriaethau strategol ar gyfer rhwydweithiau llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio

Ni ragwelir y bydd FfMLl yn trafod yn fanwl waith ar lwybrau cyhoeddus, fel dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus ayyb, a hynny’n bennaf oherwydd manylder y gwaith ac oherwydd y cyfyngiad o ran amser – er y bydd achosion eithriadol, o bosibl, lle teimlir y bydd yn addas trafod rhyw achos penodol, yn enwedig os oes goblygiadau i’r rhwydwaith ehangach. Fodd bynnag, fe fydd FfMLl, yn ôl pob tebyg, yn gorfod cynghori ynghylch blaenoriaethau strategol. Er enghraifft, efallai yr hoffent gynghori ynghylch y materion canlynol:

- datblygu llwybrau beicio;
- gwella’r rhwydwaith o lwybrau march;
- rheoli mynediad cerbydau oddi-ar-y-ffordd;
- mynediad ar gyfer yr anabl;
- llwybrau cyhoeddus sy’n cysylltu ag aneddiadau;
- llwybrau cyhoeddus sy’n cysylltu â thir mynediad.

### 4.4 Mathau eraill o hamddena awyr agored

Mae'n bwysig nodi nad er mwyn ystyried tir mynediad ar gyfer cerdded yn unig y sefydlir FfMLl. Mae'r swyddogaeth statudol yn mynnu eu bod yn ystyried gwella mynediad i dir at ddiben pob math o hamddena awyr agored ac at ddiben mwynhau'r ardal. Felly, fe all Fforymau Mynediad Lleol ymwneud â mynediad i dir heblaw ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth. Er enghraifft, mae gleidio llaw, mynd ar bicnic, pysgota, saethu a chael mynediad at safleoedd bywyd gwyllt a safleoedd cadwraethol oll yn ffurfiau o hamddena awyr agored sydd angen mynediad i dir. Fe fydd union natur y diddordebau perthnasol yn amrywio o ardal i ardal, ac felly swyddogaeth pob FfMLl fydd penderfynu pa bynciau sy'n addas i'w trafod yn eu hardal nhw.

## 5 Cynnwys FfMLl yn y broses ddemocratig

Mae Fforymau Mynediad Lleol yn lefel newydd yn y broses o ffurfio rheolaeth, strategaeth a pholisi mynediad i gefn gwlad. Maen nhw'n gweddu'n dda i'r moderneiddio sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y llywodraeth er mwyn gwneud y llywodraeth yn fwy atebol trwy roi i'r cyhoedd rôl amlycach mewn materion lleol. Mae'n hanfodol bwysig bod rôl y FfMLl yn y broses yn cael ei gwneud yn hollol glir o'r cychwyn cyntaf, a bod pawb yn cymryd FfMLl o ddifrif. Yn yr adran hon, amlinellir cyngor CCGC ynghylch ymwneud FfMLl trwy benodi awdurdodau a chyrff eraill a fydd, yn ôl statud, yn gorfod ystyried cyngor perthnasol FfMLl.

### 5.1 Cyrff sydd a dyletswydd statudol i ystyried cyngor FfMLl

Mae Deddf CGHT yn ei gwneud hi'n ddyletswydd statudol i gyrff amrywiol ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan FfMLl wrth gyflawni eu swyddogaethau. Dyma'r cyrff dan sylw:

- yr awdurdodau penodi;
- unrhyw gorff sy'n arfer ei swyddogaethau dan Ran 1 o'r Ddeddf mewn perthynas â thir yn yr ardal honno (CCGC a'r Cynulliad Cenedlaethol yn bennaf, a'r Comisiwn Coedwigaeth mewn ambell achos);
- yr awdurdod priffyrdd lleol.

Wrth gwrs, er mwyn galluogi FfMLl i roi cyngor rhaid cael dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y FfMLl a'r cyrff sy'n gorfod ystyried cyngor y FfMLl (gweler 5.3 a 5.5 isod).

### 5.2 Gosod agenda FfMLl

Yn ôl y rheoliadau, rhaid i agendâu FfMLl gael eu llunio gan ysgrifennydd y FfMLl mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y FfMLl. O blith yr eitemau canlynol y daw eitemau'r agenda, yn ôl pob tebyg:

- eitemau agenda a gynigiwyd gan aelodau'r FfMLl;
- eitemau agenda a gynigiwyd gan yr awdurdod penodi;
- eitemau agenda a gynigiwyd gan gyrff eraill sydd, yn ôl statud, yn gorfod ystyried cyngor FfMLl (gweler 5.3.);

- eitemau agenda a gynigiwyd gan gyrff neu unigolion eraill.

Gan hynny, fe fydd gan yr Ysgrifennydd, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyfrifoldeb dros benderfynu pa eitemau o blith yr eitemau agenda a gynigiwyd sy'n cael blaenoriaeth, gan gymryd i ystyriaeth faint o amser sydd ar gael i drafod yn y cyfarfod/cyfarfodydd.

## 5.3 Cyrff sy'n cael eu cynghori yn troi at FfMLl

Mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parc Cenedlaethol, y Cynulliad Cenedlaethol, CCGC a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ystyried cyfeirio pob mater perthnasol at y Fforwm Mynediad Lleol. Ceir dau brif bwrpas pam y dylid gwneud hyn:

- darparu gwybodaeth ar gyfer aelodau FfMLl;
- gofyn am gyngor aelodau FfMLl.

Felly rhaid datblygu 'diwylliant' o fewn y cyrff statudol sy'n gofyn am gyngor lle cyfeirir pob mater perthnasol ynghylch mynediad at y FfMLl. Mewn ambell achos, efallai na fydd y FfMLl yn dymuno cynnig cyngor, ond mae'n bwysig rhoi'r cyfle iddynt wneud hynny. Ar bob cyfrif, dylid osgoi sefyllfa lle byddai FfMLl yn dweud y byddai wedi cynnig cyngor ar ryw fater perthnasol ond na chyfeiriwyd y mater ato.

## 5.4 gwaith a gynhyrchir gan y FfMLl ei hun

Mae'n hollbwysig bod Fforymau Mynediad Lleol yn chwarae rhan lawn wrth osod eu hagendâu eu hunain, ac nad ydyn nhw'n disgwyl i waith gael ei gyfeirio atynt gan yr awdurdod penodi neu gyrff eraill. Felly, dylid annog yr aelodau unigol i gynnig eitemau agenda ac i lunio dogfennau ategol lle bo angen.

## 5.5 Anfon cyngor yn ei flaen at gyrff perthnasol

Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n amlwg bod angen ffordd effeithiol o sicrhau bod cyngor FfMLl yn cael ei dderbyn gan y corff/cyrff perthnasol. Yn ogystal â chofnodion, felly, fe fydd angen i'r cadeirydd a/neu'r ysgrifennydd sicrhau bod cyngor yn cael ei dargedu'n briodol trwy gyfrwng y dull mwyaf addas – papur neu lythyr neu gyfarfod gyda'r corff sy'n derbyn y cyngor, yn ôl pob tebyg. Fe all FfMLl drafod mewn cyfarfod cynnar sut y gallant sicrhau bod eu cyngor yn cael ei gyfathrebu'n briodol i'r cyrff perthnasol.

## 5.6 Swyddogaeth arllyswyr

Mae'n bwysig nodi mai Cadeirydd y FfMLl, NID yr awdurdod penodi, sy'n gwahodd arsyllwyr i'r cyfarfodydd. Yr unig rai a chanddynt hawl i arsyllu yw swyddogion yr awdurdod penodi ac un cynrychiolydd o CCGC a'r Cynulliad Cenedlaethol. (Gweler Rheoliadau FfMLl 15(8) a 15(9)).

Fe fydd union swyddogaeth yr arsyllwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r aelodau. Fodd bynnag, fe fydd y rhan fwyaf o'r arsyllwyr, yn ôl pob tebyg, yn cael eu gwahodd gan fod ganddynt wybodaeth, neu gan eu bod yn cynrychioli rhyw gorff a chanddo ddiddordeb. Hynny ydyw, fe'u gwahoddir gan y byddai eu presenoldeb o fudd i'r FfMLl.

Ni fyddant o angenrheidrwydd yn cael siarad, ond fe fydd modd iddynt wneud

hynny gyda chaniatâd y Cadeirydd. Fe fydd gan arsyllwyr naill ai wahoddiad sefydlog, neu fe fyddant yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd perthnasol penodol yn unig. Yn wahanol i'r aelodau, nid oes yn rhaid i arsyllwyr fod yn unigolion a enwir, a gellir gwahodd sefydliad i anfon arsyllwr o'u dewis eu hunain.

## 5.7 Cynrychiolaeth FfMLl mewn cyrff/gweithdai eraill

Yn ôl pob tebyg, fe fydd FfMLl yn cael eu gwahodd i anfon cynrychiolydd neu gynrychiolwyr i gyfarfodydd eraill. Dylid annog hyn, gan ei fod yn ffordd arall o gynnwys Fforymau Mynediad Lleol yn llawn yn y broses o reoli mynediad a llunio polisïau ar gyfer mynediad. Mae'n bwysig iawn bod aelodau FfMLl wedi ymrwymo i fynychu grwpiau allanol lle bo angen. Weithiau, efallai y bydd cynrychiolwyr FfMLl yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniadau, sgyrsiau a briffiau ayyb mewn cyfarfodydd.

## 5.8 Ymwneud â'r cyhoedd

Fel cyrff ymgynghorol statudol mewn system ddemocratig, mae'n bwysig bod FfMLl yn ystyried yn fanwl sut i gyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd.

- **Aelodau'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd FfMLl**
  Yn ôl y rheoliadau, rhaid i gyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd, os na fydd y sawl sy'n llywyddu (y Cadeirydd, fel arfer) yn barnu y dylid eu heithrio oherwydd rhesymau neilltuol. Fodd bynnag, ni ddylid eithrio'r cyhoedd ond mewn amgylchiadau eithriadol.

- **Llunio adroddiad blynyddol**
  Yn ôl y rheoliadau, rhaid i'r awdurdodau penodi i gyd-lunio adroddiad blynyddol a fydd ar gael i'r cyhoedd, gan ei lunio cyn gynted â phosibl ar ôl 31 Mawrth bob blwyddyn. Yn y bôn, dylai adroddiad o'r fath gynnwys manylion am y gwaith a wnaed gan FfMLl yn y flwyddyn flaenorol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

- **Gwneud dogfennau FfMLl ar gael i'r cyhoedd**
  Er nad yw'r rheoliadau yn nodi hyn yn benodol, mae CCGC yn awgrymu'n gryf y dylai FfMLl hefyd ystyried y ffordd orau o gysylltu â'r cyhoedd y tu allan i'r cyfarfodydd a rhwng yr adroddiadau blynyddol. Dylid ystyried hysbysebu'r cyfarfodydd gan ei gwneud hi'n haws cael gafael ar gofnodion, agendâu a manylion am aelodaeth. Yn ôl pob tebyg, gwefan yr awdurdod penodi fydd y cyfrwng mwyaf addas ar gyfer dosbarthu gwybodaeth, a hefyd papurau newydd lleol. Yn ogystal, fe ddylid annog aelodau'r FfMLl eu hunain i wneud popeth o fewn eu gallu i gysylltu â'r cyhoedd.

- **Caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddweud eu dweud**
  Efallai yr hoffai Fforymau Mynediad Lleol ystyried a fyddai modd iddynt sefydlu dull a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i chwarae rhan fwy blaenllaw yn y FfMLl. Er enghraifft, gellid gwahodd eitemau agenda a chwestiynau, o bosibl trwy gyfrwng yr ysgrifennydd, cyn y cyfarfodydd. Yna, gallai'r FfMLl benderfynu a ddylai'r Fforwm ymdrin ag unrhyw awgrymiadau a gafwyd.

# 6 Rhagor o wybodaeth

## Deddfau / Rheoliadau a Nodiadau Cynghori

- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Limited, (2000).
- Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001; The Stationery Office Limited, (2002).
- Datblygiad Fforymau Mynediad yng Nghymru 2000-01; CCGC, (2001).
- Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd ar Arferion Da; CCGC, (2002).

# ATODIAD – Cefndir Fforymau Mynediad Lleol

## 1. Beth yw Fforymau Mynediad Lleol?

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000 yn mynnu bod Fforymau Mynediad Lleol (FfMLl) yn cael eu sefydlu trwy Gymru a Lloegr. Cyrff ymgynghorol ydynt a sefydlir er mwyn cynnig cyngor ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno ar gyfer hamddena awyr agored a mwynhau'r ardal, ac ar gyfer ymdrin â materion eraill a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Cynulliad wedi penderfynu peidio â phennu materion ychwanegol yn y rheoliadau, er y gallent wneud hynny yn y dyfodol.

## 2. Pwy sy'n eu sefydlu?

Mae Deddf CGHT yn rhoi dyletswydd statudol ar 'awdurdodau penodi' i sefydlu FfMLl. O fewn Parciau Cenedlaethol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol fydd yw awdurdod penodi; mewn mannau eraill, yr awdurdod unedol fydd yr awdurdod penodi.

## 3. Pa ardal y byddant yn ymdrin â hi?

Fe all Awdurdodau Penodi sefydlu cymaint o FfMLl ag sydd eu hangen i ymdrin yn effeithiol â'u hardal. Mewn sawl awdurdod, fe fydd un FfMLl yn ddigon. Gall awdurdodau mwy sefydlu mwy nag un er mwyn cadw popeth yn 'lleol'. Gall awdurdodau cyfagos sefydlu FfMLl ar y cyd.

## 4. Sawl un fydd i'w gael?

Yng Nghymru, mae yna ddau ddeg pump o awdurdodau penodi. Un FfMLl yn ymdrin â'r holl ardal fydd gan y rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, disgwylir y bydd gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (3), Powys (3) a Pharc Cenedlaethol Eryri (2) fwy nag un. Mae FfMLl ar y cyd yn cael eu ffurfio rhwng Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Chyngor Sir Benfro a rhwng Eryri a Gwynedd yn rhan ddeheuol ardaloedd yr awdurdodau hyn. Disgwylir y bydd cyfanswm o ddau ddeg naw o FfMLl yng Nghymru.

## 5. Pwy y byddant yn ei gynghori?

Yn ôl Deddf CGHT, fe fydd FfMLl yn cynghori'r awdurdodau penodi, cyrff sy'n arfer swyddogaethau dan ran 1 o'r Ddeddf (CCGC yn bennaf), yr awdurdod priffyrdd a chyrff eraill yn ôl a bennir mewn rheoliadau (nid oes yr un wedi ei bennu fel hyn ). Mae gan y cyrff hyn ddyletswydd statudol i ystyried y cyngor perthnasol a gânt gan FfMLl. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cysylltiadau llai ffurfiol yn cael eu sefydlu gyda chyrff eraill, fel grwpiau o dirfeddianwyr a grwpiau defnyddwyr.

## 6. Pwy sy'n penodi'r aelodau?

Yr awdurdodau penodi sy'n penderfynu pwy a gaiff ei benodi i ddod yn aelod o FfMLl. Fodd bynnag, rhaid iddynt ystyried yn llwyr Ddeddf CGHT a'r rheoliadau, sydd yn benodol yn gofyn am hysbysu mewn papurau newydd lleol er mwyn gwahodd rhai a chanddynt ddiddordeb mewn dod yn aelod i fynegi hynny. Mae'r Ddeddf CGHT yn benodol yn mynnu bod 'awdurdodau penodi' yn penodi unigolion sy'n cynrychioli:

a) rhai sy'n defnyddio llwybrau cyhoeddus neu dir mynediad;
b) perchnogion/deiliaid tir mynediad neu dir lle mae hawliau tramwy mewn bod;
c) unrhyw ddiddordebau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

Mae'n hollbwysig bod awdurdodau penodi yn ystyried pa mor ddymunol fyddai cynnal cydbwysedd rhwng a) a b).

## 7. Ynghylch beth y byddant yn cynnig cyngor?

Yn ymarferol, gall FfMLl gynnig cyngor ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â mynediad i dir ar gyfer hamddena awyr agored a mwynhau'r ardal. Mae Deddf CGHT yn mynnu bod yn rhaid ymgynghori â hwy mewn rhai achosion, megis mapio cefn gwlad agored a thir comin cofrestredig, defnyddio wardeniaid, llunio is-ddeddfau a Chynlluniau Gwella Llwybrau Cyhoeddus. Fe fydd FfMLl a'r awdurdod penodi yn penderfynu ar feysydd gwaith eraill. (Gweler adrannau 2-4 am fwy o fanylion.)

## 8. A fydd FfMLl yn ymdrin â Chymru gyfan?

Mewn egwyddor, fe all y Cynulliad Cenedlaethol gytuno nad oes angen FfMLl mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw faterion perthnasol i'w hystyried. Fodd bynnag, disgwylir y bydd FfMLl yn ymdrin â Chymru gyfan.

## 9. Pa gynnydd sydd i'w weld hyd yn hyn?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a CCGC yn awyddus iawn i weld FfMLl yn cael eu sefydlu'n gynnar. Fe ddaeth y rheoliadau sy'n galluogi FfMLl i gael eu sefydlu i rym ar 1 Ionawr 2002. Fodd bynnag, cyn hyn, mae CCGC wedi cynghori a chynorthwyo sawl awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w helpu i sefydlu FfMLl dros dro cyn y rheoliadau. Mae profiadau'r FfMLl dros dro wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ffurfio arweiniad ar gyfer y FfMLl statudol.

## 10. Pryd y caiff FfMLl eu sefydlu?

Mae'r rheoliadau yn mynnu bod Fforymau Mynediad Lleol yn cael eu sefydlu trwy gydol Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2002.